



Digital Regulation Cooperation Forum



## Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol: Cynllun gwaith 2021 i 2022

### Rhagair

Mae technolegau digidol a gwasanaethau ar-lein yn creu manteision ar gyfer pobl a busnesau. Maent yn newid y ffordd yr ydym yn rhyngweithio â'r byd o'n cwmpas, gan symblu ymddygiadau newydd a chreu ffyrdd newydd o wneud busnes a chyfathrebu. Fodd bynnag, mae'r technolegau hyn hefyd yn codi pryderon a'r posibilrwydd o fathau newydd o niwed.

Mae llawer o gwmnïau technoleg wedi ceisio cymryd cyfrifoldeb dros reoli risgiau y gallai pobl fod yn eu hwynebu wrth ddefnyddio eu gwasanaethau. Fodd bynnag, o ystyried maint yr effaith economaidd a chymdeithasol sydd gan y cwmnïau hyn erbyn hyn, mae llywodraethau'n galw am reoleiddio cryf ac annibynnol i ddarparu profiad mwy diogel a theg ar-lein.

Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac Ofcom yn chwarae rolau cynyddol bwysig o ran galluogi ffydd mewn technoleg ddigidol a sicrhau bod llwyfannau digidol yn cystadlu ac yn arloesi er mwyn dod â manteision i'r bobl sy'n eu defnyddio. Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu penodi Ofcom yn rheoleiddiwr diogelwch ar-lein yn y DU, ac ym mis Ebrill bydd y CMA yn sefydlu Uned Marchnadoedd Digidol i oruchwylio'r drefn newydd o blaid cystadleuaeth sydd wedi'i chynllunio gan Lywodraeth y DU. Yn y cyfamser ni fu erioed yn bwysicach sicrhau bod ein hawliau data yn cael eu diogelu, ac mae ein data personol yn ddiogel: mae mandad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) yn allweddol i hyn

Mae defnyddwyr a busnesau'n disgwyl yn briodol i reoleiddwyr fod yn gydgyssylltiedig. Y llynedd, sefydlwyd y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF). Gan gydweithio trwy'r fforwm hwn, byddwn yn gallu ymateb yn well i raddfa a natur fyd-eang llwyfannau digidol mawrion a pha mor gyflym y maent yn arloesi. Bydd y cydweithrediad rhyngom yn cefnogi dulliau rheoleiddio mwy cydlynol a chydgyssylltiedig.

Wrth ddod â ni at ein gilydd i hyrwyddo cystadleuaeth, diogelu defnyddwyr, rheoleiddio gwasanaethau cyfathrebu, a diogelu hawliau data pobl, bydd y DRCF yn ein galluogi i gydweithio ar y materion mwyaf cymhleth. Erbyn hyn hefyd, mae'n bleser gennym groesawu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) fel aelod llawn o'r DRCF o fis Ebrill 2021 ac edrychwn ymlaen at gydweithio'n agos â'r FCA wrth i'r cynllun gwaith hwn gael ei weithredu.

Mae gan y DRCF rôl allweddol o ran gwella cydweithredu ar draws y dirwedd reoleiddio a bydd yn parhau i adeiladu ar ein trafodaethau gyda rheoleiddwyr digidol eraill. Rydym yn croesawu sylwadau ac ymgysylltu ar gynllun gwaith y DRCF ac ar ei flaenoriaethau. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â [DRCF@ofcom.org.uk](mailto:DRCF@ofcom.org.uk).